# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 26.01.09

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams, (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr**:** Robert Anderson, Evie Morgan Jones, J.R.Jones, Peter Read, Ieuan Roberts

**Hefyd yn Bresennol:** Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu) a Barbara Owen (Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr W. Tudor Owen; Louise Hughes a W. Gareth Roberts

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datgan o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 09 Hydref 2008 fel rhai cywir.

## 3. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG:

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, cofnodion y cyfarfodydd canlynol:-

2 Hydref 2008 12 Tachwedd 2008 17 Rhagfyr 2008

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r wybodaeth.**

**Mater yn codi o achos yn y gorffennol:**

Cyfeiriodd Aelodd lleol Llanbedr at benderfyniad a wnaethpwyd yn ystod mis Ebrill 2008 i beidio â chaniatau teledu tu allan i westy'r Lion, Abermaw, gan adrodd bod y teledu yn dal mewn lle tu allan i'r safle. Holodd am y broses apel a'r sefyllfa Gorfodaeth, gan ddatgan ei bryder os nad oedd penderfyniadau'r Is-bwyllgor Trwyddedu yn cael eu gwireddu. Cafwyd ymateb y Rheolwr Trwyddedu yn datgan mai adran Iechyd yr Amgylchedd oedd wedi dod â'r cais i sylw'r Adain Drwyddedu ac y byddai sylw'r Aelod yn cael ei gyfleu i'r swyddogion priodol.
Daeth cyfnod caniatau apel y Lion i ben yn mis Hydref 2008 a deallwyd i'r perchenogion benderfynu peidio â mynd i apel cyn diwedd y cyfnod hwn. Bu ardal Dolgellau heb Swyddog Gorfodaeth hyd at fis Hydref 2008 ond bellach cafwyd penodiad i'r swydd ac fe dynnir sylw'r Swyddog Gorfodaeth hefyd at y mater ac yna adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y sefyllfa.

**PENDERFYNWYD cyfeirio'r mater i'r swyddogion priodol ac adrodd yn ôl i Cyng. Evie M. Jones**

## 4. DIWYGIO AMOD CERBYDAU HACNI/HURIO PREIFAT

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu ei adroddiad yn nodi iddo dderbyn cais gan Gymdeithas Tacsis Arfon i ymestyn uchafswm oedran cerbydau a ganiateir ar gyfer eu trwyddedu i 12 oed yn hytrach na 10 oed fel yn bresennol. Adroddwyd i weld amrywiaeth yn y mater o fewn cynghorau cyfagos gyda Cyngor Ynys Môn yn caniatau hyd at 12 oed tra nad oes gan Gyngor Conwy uchafswm o gwbl.

Nododd y swyddog resymau o blaid ac yn erbyn y cais gan wahodd sylwadau'r aelodau a chyflwynwyd y sylwadau canlynol:

- Mae traul syweddol ar gerbydau tacsi o'u cymharu â cherbydau eraill
- Mae'n bwysig bod cyflwr cerbydau dan drwydded i'r Cyngor o safon dderbyniol
- Derbyniwyd y cais gan gynrychiolaeth helaeth o aelodaeth Cymdeithas Tacsis Arfon
- Mynegwyd cefnogaeth â gyrrwyr tacsis a'r costau cynyddol o redeg busnes yn yr hinsawdd economaidd bresennol

Cafwyd gwahaniaeth barn mewn trafodaeth ar y mater gan nodi cefnogaeth i'r naill ochr a'r llall o'r cais, a phleidleiswyd ar y mater, gyda chanlyniad o bum pleidlais yn erbyn dwy yn gefnogol i gadw at uchafswm oedran o 10 oed.

**PENDERFYNWYD:**

**i) y dylid cadw at yr uchafswm oedran presennol o 10 oed ar gyfer cerbydau hacni/hurio preifat.**

## 5. AMODAU TRWYDDEDU RICKSHAWS

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad yn nodi iddo dderbyn cais gan wr a gwraig sy'n dymuno sefydlu busnes *rickshaw* yn ardal Aber Mawddach yn ogystal ag ymholiad cychwynnol o ardal Caernarfon.

Mae angen polisi ar gyfer menter o'r fath a chyflwynwyd atodiad i sylw'r aelodau yn cynnig polisi fyddai'n addas ar gyfer y math hwn o fusnes. Nodwyd y byddai gofynion unrhyw ymgeisydd yn cyfateb yn bennaf i rai sy'n bodoli ar gyfer gyrrwyr cerbydau hacni/hurio preifat, sef archwiliad meddygol pob tair blynedd neu amlach yn dibynnu ar oedran; bod y gyrrwr yn cyflwyno adroddiad hanes troseddol berthnasol, a bod y ffi berthnasol yn cael eu thalu.

Argymhellir y byddai trwydded yn ddilys am 12 mis o ddyddiad ei rhyddhau, gydag angen i'w hadnewyddu yn flynyddol, a bod y ffioedd canlynol yn daladwy:

| | |
|---|---|
| Cerbyd: | £40.00 |
| Plât: | £10.50 |
| Gyrrwr: | £59.00 |

**PENDERFYNWYD:-**

**i) derbyn yr adroddiad**

**ii) derbyn y polisi "Cerbydau Hacni Ricsho: Amodau'r Drwydded"**

**iii) cymeradwyo'r ffioedd canlynol ar gyfer cerbydau hacni ricsho; Cerbyd: £40.00; Plât: £10.50 Gyrrwr: £59.00**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30a.m. a daeth i ben am 10.50a.m.